OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1131 (Cy. 118)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DIWYDIANNAU DA BYW

## Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *17 Ebrill 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer ei bwerau o dan adrannau 10(1) a 10(2)(a) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 18 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygiadau i Reoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Lloegr a Chymru) 1985

**2.**—(1) Rhaid diwygio Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Lloegr a Chymru) 1985(**2**) yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli)—

(a) yn union ar ôl y diffiniad o "embryo transfer unit", rhaid mewnosod y diffiniad canlynol—

""emergency licence" means an emergency licence issued under the Artificial Insemination of Cattle (Emergency Licences) (Wales) Regulations 2001(**3**) or the Artificial Insemination of Cattle (Emergency Licences) (England) Regulations 2001(**4**)."

(b) yn union ar ôl y diffiniad o "semen shop licence", rhaid mewnosod y diffiniad canlynol—

(**1**) 1984 p.40. Trosglwyddwyd pob un o swyddogaethau Gweinidogion y Goron o dan Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), i'r graddau y mae'r fath swyddogaethau yn arferadwy mewn perthynas â Chymru.

(**2**) O.S. 1985/1861: diwygiadau perthnasol mewn perthynas â Chymru yw O.S. 1992/671, O.S. 1995/2549, O.S. 1996/3124, ac O.S. 2001/1539 (Cy. 107).

(**3**) O.S. 2001/1539 (Cy.107).

(**4**) O.S. 2001/1513.

"“special acceptance licence” means a licence issued under regulation 7(1)(j);"; ac

(c) yn union ar ôl y diffiniad o “special movement licence”, rhaid mewnosod y diffiniad canlynol—

"“special transfer licence” means a licence issued under regulation 7(1)(i);".

(3) Yn rheoliad 4 (cymhwyso'r rheoliadau), am baragraff (3A), rhaid amnewid y paragraff canlynol—

“(3A) These regulations shall not apply to anything done in accordance with the conditions of an emergency licence.”.

(4) Yn rheoliad 7 (trwyddedau)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) ar ddiwedd is-baragraff (g), am yr atalnod llawn, rhaid amnewid hanner colon;

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (h), am yr atalnod llawn, rhaid amnewid hanner colon; a

(iii) ar ôl is-baragraff (h), rhaid ychwanegu'r is-baragraffau canlynol—

“(i) a special transfer licence; and

(j) a special acceptance licence.”.

(b) ar ôl paragraff (9A), rhaid ychwanegu'r paragraffau canlynol—

“(9B) A special transfer licence shall authorise the licensee to move or cause or permit semen collected and processed in accordance with an emergency licence to be moved from a farm storage unit specified in the special transfer licence to a supply centre so specified.

(9C) A special acceptance licence shall authorise the licensee to accept semen at a supply centre specified in that licence and in accordance with the provisions of regulation 21(d).”.

(5) Yn rheoliad 21 (derbyn had i'w gyflenwi)—

(a) ar ddiwedd paragraff (a), rhaid dileu'r gair “or”;

(b) ar ddiwedd paragraff (b), rhaid dileu'r gair “or” ;

(c) ar ddiwedd paragraff (c)—

(i) am yr atalnod llawn, rhaid amnewid hanner colon, a

(ii) rhaid mewnosod y gair “or”; a

(ch) ar ôl paragraff (c), rhaid ychwanegu'r paragraff canlynol—

“(d) the semen—

(i) was collected and processed in accordance with an emergency licence from a bull that has been approved in accordance with regulation 5 (whether the bull was approved at the time of collection or subsequently),

(ii) has subsequently been stored in accordance with the conditions of an emergency licence or a farm storage licence,

(iii) has been moved in accordance with the conditions of a special transfer licence, and

(iv) is accepted in accordance with the conditions of a special acceptance licence.”.

(6) Yn rheoliad 24 (gorchymyn cyffredinol ynghylch defnyddio had)—

(a) am baragraff (a), rhaid amnewid y paragraff canlynol—

“(a) that semen—

(i) has been obtained from a supply centre or a semen shop from which the semen was moved in accordance with the provisions of these Regulations or in accordance with the conditions of an emergency licence,

(ii) has been obtained from a processing centre from which the semen was moved in accordance with the provisions of these Regulations, in accordance with the conditions of either a special movement licence or an emergency licence, or

(iii) was collected in accordance with the conditions of an emergency licence, and";

(b) ym mharagraff (b)(iv), yn union ar ôl y geiriau "Agricultural Training Board", rhaid mewnosod y geiriau "or the National Assembly for Wales".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*John Marek*
17 Ebrill 2002 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Lloegr a Chymru) 1985 (O.S. 1985/1861) (y cyfeirir atynt yn y nodyn hwn fel Rheoliadau 1985) er mwyn gwneud darpariaethau trosiannol sy'n perthyn i'r trwyddedau argyfwng sy'n dod i ben ac a ddyroddwyd o dan Reoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Trwyddedau Argyfwng) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/1539 (Cy. 107)) yn ystod yr achosion diweddar o glwy'r traed a'r genau ac i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod cyrsiau hyfforddi ychwanegol at y rhai a gydnabuwyd gan y Bwrdd Hyfforddi Amaethyddol (sydd bellach wedi darfod).

Mae Rheoliad 2(2) o'r rheoliadau hyn yn mewnosod diffiniadau newydd o "*emergency licence*" ("trwydded argyfwng") , "*special acceptance licence*" (" trwydded dderbyn arbennig") a "*special transfer licence*" ("trwydded drosglwyddo arbennig") i reoliad 2(1) o Reoliadau 1985.

Mae Rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 4(3A) o Reoliadau 1985 i adlewyrchu'r diffiniad newydd o "*emergency licence*" ("trwydded argyfwng").

Mae Rheoliad 2(4) yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 1985 i ddarparu ar gyfer dyroddi trwyddedau trosglwyddo arbennig a thrwyddedau derbyn arbennig.

Mae Rheoliad 2(5) yn diwygio rheoliad 21 o Reoliadau 1985 er mwyn caniatáu (yn ddarostyngedig i amodau) derbyn had i'w gyflenwi sydd wedi ei gasglu a'i brosesu yn unol â thrwydded argyfwng.

Mae Rheoliad 2(6) yn diwygio rheoliad 24 o Reoliadau 1985 er mwyn caniatáu defnyddio had a gasglwyd neu a symudwyd yn unol â thrwydded argyfwng ac i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod cyrsiau hyfforddi.

Ni ddarparwyd Arfarniad Rheoliadol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.